# Galwad am fynegiadau o ddiddordeb i ymuno â Grwpiau Cynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc QAA

## Trosolwg

Mae Datganiadau Meincnod Pwnc (SBS) yn disgrifio natur yr astudiaeth, a'r safonau academaidd a ddisgwylir gan raddedigion mewn meysydd pwnc penodol. Maen nhw'n dangos beth y gellid disgwyl i raddedigion yn rhesymol fod yn ei wybod, gallu ei wneud a'i ddeall ar ddiwedd eu hastudiaethau. Fe'u defnyddir ar draws y sector fel cyfeirbwynt sy'n galluogi hyblygrwydd ac arloesedd wrth ddylunio, cyflwyno ac adolygu rhaglenni academaidd.

Mae SBS yn cael eu hysgrifennu, eu hadolygu a'u diwygio gan arbenigwyr pwnc (wedi'u hwyluso gan QAA). Rydym wrthi'n adolygu'r Datganiadau Meincnod Pwnc canlynol:

- Cymraeg
- Dieteteg
- Digwyddiadau, Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth
- Deunyddiau
- Parafeddygaeth
- Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Gwaith Ieuenctid a Chymunedol

Cyhoeddodd QAA alwad agored am fynegiadau o ddiddordeb ym mis Medi 2025 ar gyfer rolau Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Grwpiau Cynghori ar gyfer y datganiadau uchod, sydd bellach wedi cau. Rydym nawr yn ceisio mynegiadau o ddiddordeb erbyn **canol-dydd, ddydd Gwener 9fed Ionawr 2026** gan staff academaidd a myfyrwyr i ymuno â'r Grwpiau Cynghori hyn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi disgwyliadau a phrif gyfrifoldebau aelodau Grwpiau Cynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc, y broses ymgeisio a'r nodweddion a'r priodoleddau a ystyrir wrth benodi unigolion i'r rolau hyn.

Mae QAA wedi ymrwymo i sicrhau bod Grwpiau Cynghori ar SBS yn adlewyrchu amrywioldeb cyfoethog y cymunedau pwnc y maent yn eu cynrychioli. Rydym yn cydnabod manteision cadarnhaol cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant ac yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau y mae amrywioldeb o ran cefndir, profiadau, safbwyntiau a sgiliau yn eu cynnig ac yn annog ymgeiswyr cymwys yn gryf i wneud cais.

## Disgwyliadau ac ymrwymiad

Mae bod yn aelod o Grŵp Cynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc (SBS) yn gofyn am lefel benodol o ymrwymiad i sicrhau bod y SBS yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi o fewn amserlen y cytunwyd arni.

Disgwylir i aelodau wneud y canlynol:

- cymryd rhan mewn is-grwpiau a derbyn cyfrifoldebau a ddirprwyir iddynt am ysgrifennu adrannau o'r SBS gan y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd
- meddu ar brofiad neu allu ysgrifennu'n glir ac yn gryno ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol a gweithio i derfynau amser a osodwyd
- bod yn barod i wneud ymrwymiad i ymwneud â'r broses adolygu lawn (sydd fel arfer yn para tua 12 mis).

Mae manyleb y person ar gyfer aelodau academaidd a myfyrwyr wedi'i nodi isod. Darllenwch trwy'r gofynion i gael gwybod mwy am y profiad, y rhinweddau a'r priodoleddau y mae QAA yn chwilio amdanynt mewn aelodau o'r Grŵp Cynghori a sut y gellir dangos tystiolaeth ohonynt.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein gan ddefnyddio *Microsoft Teams*. Bydd cyfraniad yr aelodau'n cael ei gydnabod yn y ddogfen derfynol, ond ni chynigir unrhyw dâl am gymryd rhan yn y broses adolygu.

## Dyddiadau a cherrig milltir allweddol

Dyma'r dyddiadau a'r cerrig milltir allweddol a ragwelir ar gyfer yr adolygiad:

| | |
|---|---|
| Ionawr/Chwefror 2026 | Cyfarfodydd cyntaf y Grwpiau Cynghori |
| Chwefror-Gorffennaf 2026 | Cyfnod adolygu a drafftio gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd (misol fel arfer) y Grwpiau Cynghori |
| Medi-Tachwedd 2026 | Cyfnod ymgynghori gan gynnwys ymgynghoriad agored â chymuned y pwnc ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y maes |
| Tachwedd 2026-Ionawr 2027 | Dadansoddiad o'r ymatebion ar ôl yr ymgynghoriad ac addasu'r Datganiad yn unol â hynny |
| Mawrth-Ebrill 2027 | Cyhoeddi'r Datganiadau diwygiedig |

## Sut i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb

Os hoffech gael eich ystyried yn aelod academaidd neu'n aelod sy'n fyfyriwr o Grŵp Cynghori, mae angen i chi gyflwyno mynegiant o ddiddordeb trwy'r ffurflen hon, neu'r ffurflen hon os ydych chi'n gwneud cais fel myfyriwr/graddedig, gan ddarparu tystiolaeth o sut rydych chi'n bodloni manyleb y person isod. Mae gennym fanyleb y person ar wahân ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb gan fyfyrwyr. ***Defnyddiwch y gofod sydd ar gael i ddangos y rhinweddau a'r profiad gofynnol, yn hytrach na dim ond rhestru rolau a chyhoeddiadau blaenorol.***

Mae fersiwn *Word* o'r cwestiynau ar gyfer mynegiant o ddiddordeb ar gael ar wefan QAA i'ch helpu wrth baratoi eich cyflwyniad.

Mae croeso i Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB) a Chymdeithasau Pwnc annog ymgeiswyr cymwys i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb.

**Y dyddiad cau ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb yw canol-dydd, ddydd Gwener 9fed Ionawr 2026.**

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â qualityandstandards@qaa.ac.uk.

## Manyleb y Person (Academyddion)

| Priodoleddau a phrofiad | Ffynonellau posibl o dystiolaeth |
|---|---|
| **Hygrededd academaidd ac o ran addysgeg o fewn cymuned y pwnc** | Profiad diweddar o arwain rhaglenni gan gynnwys cymeradwyaeth gychwynnol ac adolygiad cyfnodol.<br><br>Cyfraniadau at addysgu a dysgu o fewn sefydliad a/neu gymuned disgyblaeth.<br><br>Cymrodoriaeth neu Gymrodoriaeth Hŷn yr Academi Addysg Uwch.<br><br>Profiad o ddylunio cyrsiau, gan gynnwys defnyddio Datganiadau Meincnod Pwnc, ar gyfer cymeradwyaeth gychwynnol, (ail)ddilysu, adolygiad ac achrediad allanol.<br><br>Profiad fel arholwr allanol neu weithredu fel adolygydd ar gyfer achrediad corff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRB)/cymdeithas ddysgedig ar gyfer rhaglen gradd.<br><br>Cyfarwydd â phwysigrwydd a'r defnydd o gyfeirbwyntiau'r sector sy'n ymwneud â chynnal safonau academaidd, gan gynnwys fframweithiau credyd a chymwysterau.<br><br>Profiad blaenorol o feincnodi, yn enwedig ymwneud â datblygu Datganiad Meincnod Pwnc QAA neu gyfwerth yn y gorffennol.<br><br>Profiad gyda PSRB neu gymdeithasau dysgedig, yn enwedig mewn perthynas â datblygu/gosod neu weithredu safonau proffesiynol neu safonau ar gyfer darpariaeth addysg uwch achrededig. |
| **Profiad o brosiectau, grwpiau a/neu bwyllgorau** | Cyfranogiad effeithiol mewn grwpiau a phwyllgorau. Gellid dangos hyn trwy'r canlynol:<br>• Dal swydd gyfrifol o fewn eich sefydliad presennol neu flaenorol.<br>• Cadeirio neu aelodaeth o bwyllgorau cyfadran neu sefydliadol yn eich sefydliad presennol neu flaenorol.<br>• Cadeirio neu aelodaeth o weithgor neu gyfwerth ar ran asiantaeth yn y sector.<br>• Gwasanaethu fel Cadeirydd neu aelod o bwyllgor cymdeithas ddysgedig berthnasol neu gymdeithas bwnc, neu is-bwyllgor perthnasol o'r sefydliad hwnnw.<br>• Aelodaeth o bwyllgor addysg PSRB gyda chyfrifoldeb am ddatblygu safonau. |
| **Dealltwriaeth o faterion ehangach sy'n effeithio ar y sector a chymunedau pwnc sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, cyflogadwyedd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg** | Gwybodaeth am faterion cyfoes eraill sy'n effeithio ar y sector gan gynnwys:<br>• Ymwneud ag agendâu cydraddoldeb a chynhwysiant, yn ogystal â hyrwyddo amrywioldeb a hygyrchedd mewn perthynas â chorff y myfyrwyr.<br>• Profiad o gyflwyno cynaladwyedd a chyflogadwyedd i'r cwricwlwm a'u heffaith ar gyflogaeth graddedigion o'r ddisgyblaeth yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | • Profiad o gyflwyno technolegau sy'n dod i'r amlwg i'r cwricwlwm, a dealltwriaeth o'u heffaith ar arferion dysgu ac addysgu. |
| **Profiad o gynhyrchu adroddiadau/dogfennau polisi, gan gynnwys golygu ac ysgrifennu** | Hyder wrth ddefnyddio *Microsoft 365* ac offer cydweithio ar-lein cysylltiedig, er enghraifft, *Microsoft Teams* a *SharePoint* ar gyfer cyfarfodydd a datblygu dogfennau, gan gynnwys dealltwriaeth o ganiatâd mynediad a rheoli fersiynau.<br><br>Profiad o ysgrifennu a/neu olygu adrannau o adroddiadau a/neu ddogfennau polisi.<br><br>Y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol.<br><br>Profiad o gyfrannu at gyflwyniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ran adran neu ddarparydd, er enghraifft *REF, TEF* ac *Athena SWAN.* |

## Manyleb y Person (Myfyriwr)

| Priodoleddau a phrofiad | Ffynonellau posibl o dystiolaeth |
|---|---|
| **Profiad academaidd** | Myfyriwr cofrestredig ar raglen gradd Baglor neu Feistr sy'n berthnasol i'r gymuned pwnc y mae'r datganiad meincnod yn cyfeirio ati neu unigolyn sydd wedi graddio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. |
| **Profiad o brosiectau, grwpiau a/neu bwyllgorau** | Cyfranogiad gweithredol mewn grwpiau a phwyllgorau. Gellid dangos hyn trwy'r canlynol:<br>• Gwasanaethu fel cynrychiolydd myfyrwyr ar lefel adrannol, gyfadrannol neu sefydliadol.<br>• Cadeirio neu aelodaeth o bwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr neu gyfwerth.<br>• Cadeirio neu aelodaeth o bwyllgor undeb myfyrwyr neu bwyllgor sy'n rhedeg clwb neu gymdeithas gysylltiedig.<br>• Cynnal aelodaeth myfyrwyr o gymdeithas ddysgedig neu gymdeithas bwnc berthnasol, a chyfranogiad yn eu gweithgareddau. |
| **Dealltwriaeth o faterion ehangach sy'n effeithio ar y sector a chymunedau pwnc sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, cyflogadwyedd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg** | Gwybodaeth am faterion cyfoes ehangach sy'n effeithio ar y sector gan gynnwys:<br>• Cydraddoldeb a chynhwysiant a hyrwyddo amrywioldeb a hygyrchedd mewn perthynas â chorff y myfyrwyr.<br>• Profiad o gynaladwyedd a chyflogadwyedd yn y cwricwlwm i gynorthwyo â chyflogaeth graddedigion yn y dyfodol o fewn y ddisgyblaeth.<br>• Ymwybyddiaeth o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a'r ffyrdd y maen nhw'n effeithio ar arferion dysgu ac addysgu. |
| **Profiad o gynhyrchu dogfennau, gan gynnwys golygu ac ysgrifennu** | Hyder wrth ddefnyddio *Microsoft 365* ac offer cydweithio ar-lein cysylltiedig, er enghraifft, *Microsoft Teams* a *SharePoint* ar gyfer cyfarfodydd a datblygu dogfennau, gan gynnwys dealltwriaeth o ganiatâd mynediad a rheoli fersiynau.<br>• Profiad o ysgrifennu a/neu olygu adrannau o aseiniadau cydweithredol.<br>• Profiad o gyd-greu aseiniadau neu bolisïau gyda staff academaidd.<br>• Y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol.<br>• Profiad o gynnig adborth adeiladol a chytbwys. |

Cyhoeddwyd - Rhagfyr 2024

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk